RHONDDA CYNON TAF

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR TRWYDDEDU 2003**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu 2003 a gynhaliwyd Dydd Llun, 29 Gorffennaf 2019 am 3.30 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypandy CF40 2XX.

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Trwyddedu 2003 Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cynghorydd D Williams
Y Cynghorydd S Bradwick
Y Cynghorydd S Powderhill
Y Cynghorydd T Williams
Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd S Morgans
Y Cynghorydd A Cox
Y Cynghorydd P Howe

## Swyddogion oedd yn bresennol

Ms L Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Ms R Hope, Rheolwr Gwasanaeth Trwyddedu a Diogelu Iechyd
Mr M Owen, Rheolwr trwyddedu Cynorthwyol

**8 YMDDIHEURIADAU**

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol E. Webster a M. Diamond.

**9 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**10 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A'R DDEDDF TROSEDD AC ANRHEFN**

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

**11 ADOLYGU DATGANIAD POLISI TRWYDDEDU 2020–2025**

Gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint, cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu Cynorthwyol i'r Aelodau'r diwygiadau arfaethedig i Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor ar gyfer y cyfnod 2020-2025.

Adroddwyd manylion y newidiadau allweddol i'r Polisi Trwyddedu i'r Pwyllgor a

thynnodd y swyddog sylw'r Aelodau at y Datganiad Polisi Drafft ar gyfer 2020-2025, a atgynhyrchwyd fel Atodiad 1. Esboniwyd bod proses ymgynghori gyhoeddus yn parhau gyda thri achlysur ymgysylltu wedi'u trefnu ym mhob un o'r bwrdeistrefi, Cwm Rhondda, Cwm Cynon a Thaf-elái. Soniodd y swyddog am gyfarfod Polisi Trwyddedu, a gynhaliwyd ar 1 Mai, i asesu barn yr asiantaethau partner perthnasol a sicrhau bod eu barn yn cael ei hymgorffori mewn diwygiadau drafft.

Cyfeiriodd yr aelodau at arwyddocâd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Chynllun Corfforaethol y Cyngor. Teimlwyd y byddai dolenni electronig yn fuddiol yn y Datganiad i gryfhau'r cynnwys ac i atal dyblygu gwybodaeth.

Cafwyd trafodaethau ynghylch yr Ardoll Hwyr y Nos a Gorchmynion Cyfyngiadau Ben Bore a gyflwynwyd trwy Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. Cytunodd yr aelodau, er nad yw'r Awdurdod ar hyn o bryd o'r farn fod angen Ardoll Hwyr y Nos yn RhCT, byddai'n bwysig egluro yn y Datganiad Polisi Trwyddedu, bod yr opsiwn ar gael, pe bai erioed modd cyfiawnhau hynny.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd y byddai'r sylwadau a'r diwygiadau sydd wedi'u gwneud gan y Pwyllgor Trwyddedu yn cael eu cynnwys, ar y cyd â'r sylwadau hynny a gafodd eu gwneud yn ystod yr ymarfer ymgynghori, a'u hadrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trwyddedu sy'n eistedd yn ei rôl o dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r Polisi Trwyddedu wedyn yn cael eu cyflwyno i'r Adain Weithredol ac, yn amodol ar gymeradwyaeth, yn cael eu mabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor ym mis Tachwedd 2019.

Cyn gorffen y cyflwyniad, cafodd yr Aelodau gyfle i ateb cwestiynau'r ymgynghoriad ynghylch y diwygiadau i'r Datganiad ac roedden nhw'n unfryd bod y Datganiad Polisi Trwyddedu ar gyfer 2020 - 2025 yn hyrwyddo'r pedwar Amcan Trwyddedu.

Manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i estyn eu diolch i swyddogion am ddatblygu’r Datganiad Polisi Trwyddedu yn ddogfen fwy hawdd ei defnyddio a hygyrch.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

a) Nodi'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gydag ymarferwyr trwyddedu a datblygiad y Datganiad Polisi Trwyddedu Drafft am y cyfnod 2020-25;
b) Nodi'r ymgynghoriad parhaus ar y cynigion, wedi'u targedu at ddeiliaid trwydded, sefydliadau masnach ac aelodau o'r cyhoedd;
c) Cyfrannu at yr ymarfer ymgynghori trwy roi sylwadau ar y Datganiad Polisi Trwyddedu Drafft; a
d) Nodi cynnig Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned i adrodd canlyniad yr ymgynghoriad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor yma, ynghyd ag unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r Datganiad Polisi Trwyddedu Drafft, cyn ei gyflwyno i'r Adain Weithredol.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.45 pm**

**Y Cynghorydd A Fox**
**Cadeirydd.**